



# Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned – Dalgylch Ysgol Felinwnda

# 1. Gwybodaeth Gefndirol

### 1.1 Yr Ardal

Mae dalgylch Felinwnda wedi ei lleoli ar gyrion Caernarfon, ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Yn ôl cyfrifiad 2021 mae 1,421 o bobl yn byw yn ward Llanwnda.

Ym Medi 2024, roedd 52 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, gyda 57% o'r dysgwyr yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 25% yn mynychu Ysgol Llandwrog.

### 1.2 Yr Economi

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 60.1% o bobl 16 oed a throsodd o fewn ward Llanwnda yn weithgar yn economaidd, a 0.2% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 38.3% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd, gyda 2.5% o'r rhain â salwch hir dymor neu'n anabl. Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywio yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (26%) yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol.

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol)*

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)' mae cyflogaeth ward Llanwnda o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1254 allan o 1909 AGEHI (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 50% lleiaf difreintiedig.

### 1.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanwnda wedi'i raddio o fewn y 50% ward lleiaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 1046 allan o 1909).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Er hynny, nodir fod ward Llanwnda o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanwnda o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanwnda wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o AGEHI** (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig) | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1254 | |
| Incwm | 1092 | |
| Iechyd | 1435 | |
| Addysg | 1437 | |
| Tai | 388 | O fewn y 20-30% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1020 | |
| Mynediad i wasanaethau | 116 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1513 | |

### 1.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Ward Llanwnda, gan gynnwys;

- Sensori Sara
- Clwb darllen
- Ras Rhostryfan
- Bore goffi
- Cylch Meithrin
- Merched y Wawr
- Zumba
- Y Gymdeithas

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y dalgylch, gan gynnwys canolfan gymunedol, siopau, garej, trafnidiaeth gyhoeddus, gorsaf drên bach a cae chwarae plant.

### 1.5 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Felinwnda (Medi 2024)

| | Felinwnda |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | |
| **Swyddfa Bost** | |
| **Fferyllfa** | |
| **Llyfrgell** | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | |
| **Cartref Henoed** | |
| **Canolfan Hamdden** | |
| **Garej** | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ |

## 2.Ysgolion y dalgylchoedd cyfagos

### 2.1 Cyd-destun yr ysgolion yn y dalgylchoedd amgen yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd gan arolygwyr Estyn.

**<u>Ysgol Llandwrog</u>**

*"Lleolir Ysgol Gynradd Llandwrog ym mhentref Llandwrog, tua chwe milltir i'r de o dref Caernarfon."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Gorffennaf 2019*

**<u>Ysgol Bontnewydd</u>**

*"Mae Ysgol Gynradd Bontnewydd ym mhentref Bontnewydd rhyw ddwy filltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r cylch cyfagos, gan gynnwys pentrefi Caeathro a Llanfaglan."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Chwefror 2017*

**2.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion**

| Ysgol | Capasiti | | Niferoedd (Medi 2023) | | Llefydd Gweigion D-Bl.6 | Categori Cyfreithiol | Categori Ieithyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | D-Bl.6 | M | D-Bl.6 | | | |
| **Bontnewydd** | 26 | 182* | 28 | 180 | 2 (1%) | Cymunedol | **3 |
| **Llandwrog** | 10 | 75 | 8 | 29 | 46 (61%) | Gwirfoddol a Reolir (VC) Yr Eglwys yng Nghrymu | **3 |

**Rhagwelir y bydd gan adeilad newydd Ysgol Bontnewydd gapasiti o 210 (Derbyn i Bl.6) a 30 meithrin.*

****Diffiniad o Categori 3 yw ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.*

**2.3 Ysgolion yr oedd plant dalgylch Felinwnda yn eu mynychu**

Yn ôl cyfrifiad Medi 2024, roedd 52 dysgwr cynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

Mae'r tabl isod yn dangos pa ysgolion y mae dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Felinwnda wedi'u mynychu dros y 5 mlynedd diwethaf.

| Ysgol | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Felinwnda | 18% | 4% | 7% | 6% | WEDI CAU |
| Llandwrog | 12% | 10% | 10% | 13% | 25% |
| Bontnewydd | 62% | 80% | 64% | 61% | 57% |
| Maesincla | 0 | 0 | 2% | 0% | 0% |
| Rhostryfan | 2% | 0 | 0 | 6% | 6% |
| Y Gelli | 0 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| Yr Hendre | 4% | 2% | 10% | 6% | 0% |
| | | | | | |
| Arall | 2% | 4% | 7% | 8% | 12% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020-2024*

## 3. Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

**OPSIWN 1: TROSGLWYDDO DALGYLCH FELINWNDA YN EI GYFANRWYDD I DDALGYLCH YSGOL LLANDWROG**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Mae bws cyhoeddus (rhif G6) yn rhedeg rhwng pentref Saron a Llandwrog eisoes, ond nid oes bws yn cynnig cludiant rhwng pentref Dinas, Llanwnda a Llandwrog. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mae Ysgol Llandwrog wedi ei lleoli oddeutu 2 filltir o ddalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae cyfran sylweddol (25%) o blant y dalgylch eisoes yn mynychu Ysgol Llandwrog. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd yn cael ei drosglwyddo i ddalgylch Llandwrog. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda.<br>Ni ragwelir effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn.<br><br>Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod rhai o blant dalgylch Felinwnda yn mynychu Ysgol Llandwrog eisoes, ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod dysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch rhagwelir na fydd newid y dalgylch yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. | Niwtral |

**OPSIWN 2: TROSGLWYDDO DALGYLCH FELINWNDA YN EI GYFANRWYDD I DDALGYLCH YSGOL BONTNEWYDD**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Mae nifer o fysiau cyhoeddus yn rhedeg eisoes rhwng pentrefi Llanwnda, Dinas a Bontnewydd, ond nid oes un yn rhedeg rhwng pentref Saron a Bontnewydd. Mae bws cyhoeddus 12 yn gwasanaethu rhwng Llanwnda, Dinas a Bontnewydd yn ogystal a nifer o fysiau cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng Dinas a Bontnewydd, gan gynnwys y T2, T22 a'r G4. Ni ragwelir byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn effeithio ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mae Ysgol Bontnewydd wedi ei lleoli oddeutu 2 filltir o ddalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae cyfran uchel (57%) o blant y dalgylch eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd yn cael ei drosglwyddo i ddalgylch Bontnewydd. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda.<br>Ni ragwelir effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn.<br><br>Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod nifer o blant dalgylch Felinwnda yn mynychu Ysgol Bontnewydd eisoes, ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod dysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch rhagwelir na fydd newid y dalgylch yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. | Niwtral |

**OPSIWN 3: RHANNU DALGYLCH FELINWNDA YN ÔL Y TAI SYDD YN DDAEARYDDOL AGOSAF I YSGOL LLANDWROG AC YSGOL BONTNEWYDD**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ar gyfer y dysgwyr sy'n byw ddaearyddol agosaf at Ysgol Llandwrog, mae bws cyhoeddus (rhif G6) yn rhedeg rhwng pentref Saron a Llandwrog eisoes, ond nid oes bws yn cynnig cludiant rhwng pentref Dinas, Llanwnda a Llandwrog.<br><br>Ar gyfer dysgwyr sy'n byw ddaearyddol agosaf at Ysgol Bontnewydd, mae nifer o fysiau cyhoeddus yn rhedeg eisoes rhwng pentrefi Llanwnda, Dinas a Bontnewydd, ond nid oes un yn rhedeg rhwng pentref Saron a Bontnewydd. Mae bws cyhoeddus 12 yn gwasanaethu rhwng Llanwnda, Dinas a Bontnewydd yn ogystal a nifer o fysiau cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng Dinas a Bontnewydd, gan gynnwys y T2, T22 a'r G4.<br><br>Ni ragwelir y byddai gwireddu'r opsiwn yma'n effeithio ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus.<br><br>Pe byddai dysgwyr dalgylch Felinwnda yn manteisio ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus yma, byddai'r nifer o'r dysgwyr rheiny'n gymharol isel ac felly, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd wedi eu lleoli oddeutu 2 filltir o ddalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%) eisoes. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda.<br>Ni ragwelir effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn.<br>Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan.<br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd eisoes, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod dysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch rhagwelir na fydd newid y dalgylch yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. | Niwtral |

**OPSIWN 4: GOSOD Y CYFAN O DALGYLCH FELINWNDA O FEWN DALGYLCHOEDD YSGOL LLANDWROG AC YSGOL BONTNEWYDD**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Mae nifer o fysiau cyhoeddus yn rhedeg eisoes rhwng pentrefi Llanwnda, Dinas a Bontnewydd, ond nid oes un yn rhedeg rhwng pentref Saron a Bontnewydd. Mae bws cyhoeddus 12 yn gwasanaethu rhwng Llanwnda, Dinas a Bontnewydd yn ogystal a nifer o fysiau cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng Dinas a Bontnewydd, gan gynnwys y T2, T22 a'r G4.<br><br>Mae bws cyhoeddus (rhif G6) yn rhedeg rhwng pentref Saron a Llandwrog eisoes, ond nid oes bws yn cynnig cludiant rhwng pentref Dinas, Llanwnda a Llandwrog.<br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd wedi eu lleoli oddeutu 2 filltir o ddalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%) eisoes. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda.<br>Ni ragwelir effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn.<br><br>Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd eisoes, ni ragwelir y bydda'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod dysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch rhagwelir na fydd newid y dalgylch yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. | Niwtral |


**OPSIWN 5: DEFNYDDIO MYNEDIAD DIOGEL I LÔN LAS FEL FFIN DALGYLCH BONTNEWYDD YN FFORDD AMGEN I FEDDWL AM DDALGYLCH MODERN I GYD-FYND AC AMCANION YR YSGOL NEWYDD, GAN DDEFNYDDIO'R FFORDD NEWYDD A487 FEL FFIN YN FFORDD GLIR I EGLURO FFINIAU DALGYLCH**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ar gyfer y dysgwyr sy'n byw mewn tai fyddai o fewn dalgylch estynedig addasedig Ysgol Llandwrog, mae bws cyhoeddus (rhif G6) yn rhedeg rhwng pentref Saron a Llandwrog eisoes, ond nid oes bws yn cynnig cludiant rhwng pentref Dinas, Llanwnda a Llandwrog.<br><br>Ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn tai o fewn dalgylch estynedig addasedig Ysgol Bontnewydd, mae nifer o fysiau cyhoeddus yn rhedeg eisoes rhwng pentrefi Llanwnda, Dinas a Bontnewydd, ond nid oes un yn rhedeg rhwng pentref Saron a Bontnewydd. Mae bws cyhoeddus 12 yn gwasanaethu rhwng Llanwnda, Dinas a Bontnewydd yn ogystal a nifer o fysiau cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng Dinas a Bontnewydd, gan gynnwys y T2, T22 a'r G4.<br><br>Ni ragwelir y byddai gwireddu'r opsiwn yma'n effeithio ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd wedi eu lleoli oddeutu 2 filltir o ddalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%) eisoes. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda.<br>Ni ragwelir effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn.<br><br>Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd eisoes, ni ragwelir y bydda'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod dysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch rhagwelir na fydd newid y dalgylch yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. | Niwtral |

## 4. Casgliad

Dengys cynnwys yr asesiad hwn na ragwelir y byddai’r cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith negyddol ar y gymuned.

Ni ragwelir y byddai yr un o’r 5 opsiwn yn annog teuluoedd o oedran ysgol i adael y gymuned, gan fod y dysgwyr sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd. Yn yr un modd, ni ragwelir y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned o weithredu unrhyw un o’r 5 opsiwn.




# Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio – Dalgylch Ysgol Felinwnda

# 1. Cyflwyniad

### 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni.

### 1.2 Cyd-destun Dalgylch Felinwnda

Ar 7 Tachwedd 2023, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo'n derfynol y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r dysgwyr presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024. Yn ogystal, cymeradwywyd trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r dysgwyr rheiny a oedd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar y pryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion rheiny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Yn olaf, cefnogwyd argymhelliad i gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Mae dalgylch Ysgol Felinwnda wedi ei lleoli rhwng dalgylch 2 ysgol gyfagos, sef dalgylch Ysgol Llandwrog a dalgylch Ysgol Bontnewydd, sydd fel dalgylch Felinwnda, yn rhan o ddalgylch uwchradd Ysgol Syr Hugh Owen. Yn Ionawr 2025, roedd 47 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

# 2. Yr opsiynau dan sylw:

Mae'r asesiad hwn yn asesu effaith 5 opsiwn, sef:

**Opsiwn 1** - Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog
**Opsiwn 2** - Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 3** - Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 4** - Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 5** - Defnyddio mynediad diogel i lôn Eifion fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch

## 3. Asesiad o'r effaith ar drefniadau teithio

### 3.1 Asesiad o lwybrau cerdded yn ardal Felinwnda

Pan fo dysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch, ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn, darperir cludiant di-dâl.

Y diffiniad o ffordd beryglus yw ble mae natur y ffordd (sy'n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus) yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr (wrth ystyried eu hoedran a gyda hebrwngwr fel bo angen) i gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd y Cyngor yn asesu'r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennir (yn cynnwys, e.e. afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd gyfagos, damweiniau wedi digwydd yn y gorffennol, coed yn gorhongian neu ganghennau a allai rwystro cerddwyr neu yrwyr rhag gweld, ayb). Rhaid cynnal yr asesiad ar yr amser o'r dydd a dyddiau'r wythnos y gellid disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio'r ffordd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod o'r farn bod y llwybrau cerdded sy'n cysylltu ardal dalgylch Ysgol Felinwnda efo Ysgol Llandwrog, nac Ysgol Bontnewydd yn ddiogel (wrth ystyried oedran y dysgwyr dan sylw). O ganlyniad, byddai pob un o'r 5 opsiwn dan sylw yn golygu bod holl ddysgwyr oed cynradd y dalgylch yn dod yn gymwys am gludiant i'w hysgol dalgylch, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni.

### 3.2 Effaith tebygol ar gostau cludiant

Mae adran 3.1 yn dangos y bydd gwireddu unrhyw un o'r 5 opsiwn yn golygu y bydd holl ddysgwyr oed cynradd dalgylch Felinwnda yn dod yn gymwys am gludiant i'w hysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf, yn sgil diffyg llwybrau cerdded diogel. O ganlyniad, rhagwelir y bydd costau cludiant ychwanegol yn deillio o wireddu pob un o'r opsiynau. Manylir ar amcan gostau'r opsiynau isod.

Mae'n bwysig nodi nad yw cyfrifo amcan gostau cludiant yn fater syml. Mae'r asesiad hwn yn nodi'r costau a ragwelir pe byddai'r holl ddysgwyr fyddai'n dod yn gymwys am gludiant yn sgil gweithredu'r opsiwn, yn cyflwyno cais am gludiant.

**Opsiwn 1 - Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog**

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, pe gweithredir yr opsiwn yma, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis a bws i gludo dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i'r ysgol ddalgylch dynodedig (sef Ysgol Llandwrog yn yr opsiwn yma), ac fel nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ar sail plant oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), pe byddai dalgylch Felinwnda gyfan yn trosglwyddo i ddalgylch Llandwrog, yna rhagwelir y byddai angen i'r Awdurdod gynnig cludiant i 47 plentyn ar gost o oddeutu **£78,250** y flwyddyn.

Mae'r amcan gost wedi ei gyfrifo ar sail y canlynol:

| Pwy fyddai'n gymwys am gludiant | Darpariaeth Cludiant | Amcan gost |
|---|---|---|
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw dros 2 filltir o Ysgol Llandwrog | Bws i Ysgol Llandwrog (50 sedd) | £45,000 y flwyddyn |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Llandwrog, ond dim llwybr cerdded diogel. | Tacsi i Ysgol Llandwrog *(Byddai angen tacsi yn hytrach na bws gan fod y lonydd yn gul)* | £10,450 y flwyddyn |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw yn agosach at Ysgol Bontnewydd, a gan eu bod yn byw dros filltir oddi wrth yr ysgol, neu'n byw o fewn 2 filltir, ond gan nad oes llwybr cerdded diogel i Ysgol Bontnewydd | Bws mini i Ysgol Bontnewydd (16 sedd) | £22,800 y flwyddyn |
| | **Cyfanswm** | **£78,250 y flwyddyn** |

**Opsiwn 2- Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd**

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i'r ysgol ddalgylch dynodedig (sef Ysgol Bontnewydd yn yr opsiwn yma), ac fel y nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ar sail plant oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), pe byddai dalgylch Felinwnda gyfan yn trosglwyddo i ddalgylch Bontnewydd, yna rhagwelir y byddai angen i'r Awdurdod gynnig cludiant i 47 plentyn ar gost o oddeutu **£55,450** y flwyddyn.

Mae'r amcan gost wedi ei gyfrifo ar sail y canlynol:

<table>
<tr><th>Pwy fyddai'n gymwys am gludiant</th><th>Darpariaeth Cludiant</th><th>Amcan gost</th></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw dros 2 filltir o Ysgol Bontnewydd</td><td rowspan="2">Bws i Ysgol Bontnewydd (50 sedd)</td><td rowspan="2">£45,000 y flwyddyn</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Bontnewydd, ond dim llwybr cerdded diogel.</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda sy'n byw yn agosach at Ysgol Llandwrog, a gan eu bod yn byw dros 2 filltir oddi wrth yr ysgol, neu'n byw o fewn 2 filltir, ond gan nad oes llwybr cerdded diogel i Ysgol Llandwrog</td><td>Bws mini i Ysgol Llandwrog (8 sedd)</td><td>£10,450 y flwyddyn</td></tr>
<tr><td></td><td>Cyfanswm</td><td>£55,450 y flwyddyn</td></tr>
</table>

**Opsiwn 3 - Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.**

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo rhai o'r dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i ysgolion y dalgylchoedd dynodedig (sef Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd), ac fel y nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ar sail plant oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), pe byddai dalgylch Felinwnda yn cael ei rannu yn ôl y tai sydd daearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, yna rhagwelir y byddai angen i'r Awdurdod gynnig cludiant i 47 plentyn ar gost o oddeutu **£55,450** y flwyddyn.

Mae'r amcan gost wedi ei gyfrifo ar sail y canlynol:

<table>
<tr><th>Pwy fyddai'n gymwys am gludiant</th><th>Darpariaeth Cludiant</th><th>Amcan gost</th></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Bontnewydd) sy'n byw dros 2 filltir o Ysgol Bontnewydd</td><td rowspan="2">Bws i Ysgol Bontnewydd (50 sedd)</td><td rowspan="2">£45,000 y flwyddyn</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Bontnewydd) sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Bontnewydd, ond dim llwybr cerdded diogel.</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Ysgol Llandwrog) gan eu bod yn byw dros 2 filltir oddi wrth Ysgol Llandwrog, neu'n byw o fewn 2 filltir, ond gan oes llwybr cerdded diogel i Ysgol Llandwrog</td><td>Bws mini i Ysgol Llandwrog (8 sedd)</td><td>£10,450 y flwyddyn</td></tr>
<tr><td></td><td>Cyfanswm</td><td>£55,450 y flwyddyn</td></tr>
</table>

**Opsiwn 4 - Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd**

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo rhai o'r dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i ysgolion y dalgylchoedd dynodedig (sef Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd), ac fel y nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ar sail plant oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd, pe gosodir dalgylch Felinwnda gyfan o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, yna rhagwelir y byddai angen cynnig cludiant i hyd at 47 o blant ar gost o hyd at **oddeutu £90,000**. Noder nad yw cyfrifo amcan gost mewn dalgylch o'r fath yn syml, gan fod posib i'r dysgwyr fod yn gymwys am gludiant i Ysgol Llandwrog a Ysgol Bontnewydd.

Mae'r amcan gost wedi ei gyfrifo ar sail y canlynol:

- Gan ragdybio y byddai oddeutu hanner dysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu Ysgol Llandwrog, ac y byddai'r dysgwyr hynny'n gymwys am gludiant, unai gan eu bod yn byw dros 2 filltir o Ysgol Llandwrog, neu gan nad oes llwybr cerdded diogel i gyrraedd Ysgol Llandwrog. O ganlyniad, rhagwelir y byddai angen darparu bws 50 sedd, a hynny ar gost blynyddol o £45,000.
- Gan ragdybio y byddai oddeutu hanner dysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd, ac y byddai'r dysgwyr hynny'n gymwys am gludiant, unai gan eu bod yn byw dros 2 filltir o Ysgol Bontnewydd, neu gan nad oes llwybr cerdded diogel i gyrraedd Ysgol Bontnewydd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai angen darparu bws 50 sedd, a hynny ar gost blynyddol o £45,000.

**Opsiwn 5 - Defnyddio mynediad diogel i Lôn Eifion fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch**

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo rhai o'r dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i ysgolion y dalgylchoedd dynodedig (sef Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd), ac fel y nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.


Ar sail plant oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), pe byddwn yn gwireddu 5 (gweler ddisgrifiad uchod), yna rhagwelir y byddai angen i'r Awdurdod gynnig cludiant i 47 plentyn ar gost o oddeutu **£78,250** y flwyddyn.

| Pwy fyddai'n gymwys am gludiant | Darpariaeth Cludiant | Amcan gost |
|---|---|---|
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Llandwrog) sy'n byw dros 2 filltir o Ysgol Llandwrog | Bws mini (16 sedd) i Ysgol Llandwrog | £22,800 y flwyddyn |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Llandwrog) sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Llandwrog, ond dim llwybr cerdded diogel. | Tacsi | £10,450 y flwyddyn |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Bontnewydd), sy'n byw dros 2 filltir o Ysgol Bontnewydd | - | - |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Bontnewydd), sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Bontnewydd, ond dim llwybr cerdded diogel | Bws (50 sedd) | £45,000 y flwyddyn |
| Dysgwyr dalgylch Felinwnda (rhaniad Ysgol Llandwrog) fyddai'n gymwys am gludiant i Ysgol Bontnewydd, gan mai Ysgol Bontnewydd fyddai eu hysgol agosaf. | | |
| | **Cyfanswm** | **£78,250 y flwyddyn** |

**4. Casgliad**

Pe byddai unrhyw un o'r 5 opsiwn uchod yn cael eu gweithredu, yna byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant ac i'r Awdurdod. Byddai pob un o'r opsiynau dan sylw yn golygu y byddai angen i'r Awdurdod drefnu tacsis neu fws mini i gludo dysgwyr o ddalgylch Felinwnda i'r ysgol ddalgylch amgen dynodedig, yn unol â pholisi cludiant y sir.

O ganlyniad, byddai pob un o'r 5 opsiwn dan sylw yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod a hynny ar gost o oddeutu £55,450 - £90,000 y flwyddyn. Rhagwelir mai Opsiwn 4, sef 'Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd' fyddai'r opsiwn fyddai'n arwain at y costau ychwanegol uchaf (£90,000 y flwyddyn). Rhagwelir mai Opsiwn 2, sef yr opsiwn i drosglwyddo'r dalgylch i ddalgylch Ysgol Bontnewydd ac Opsiwn 3 Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, fyddai'r opsiynau fyddai'n arwain at y costau cludiant isaf, sef oddeutu £55,450 y flwyddyn.




# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol – Dalgylch Ysgol Felinwnda

# Asesiad effaith Ieithyddol

## 1. Gwybodaeth Gefndirol

1.1 **Y Sefyllfa yng Ngwynedd**

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd **73,560 o bobl** (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i **64.4%.** Yn 2011 roedd nifer y siaradwyr yng Ngwynedd yn **77,000** a'r ganran gyfatebol yn **65.4%.** Felly mae'r gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021 wedi gostwng o 1%. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 66% o bobl (3 oed a hŷn) yng Ngwynedd yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg.
Yng Ngwynedd, ceir amrywiaeth sylweddol yn y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol wardiau ar draws y sir e.e. mae'r ganran yn wardiau Aberdyfi, Tywyn a chanol Bangor yn amrywio rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn wardiau Hendre a Llanrug.

Er hynny, mae 70.9% o boblogaeth plant 3-4 oed yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg, gyda'r ganran yma'n cynyddu i 88.6% ar gyfer y grŵp oedran 5-15 oed.

1.2 **Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deilliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg i'r llall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.
6. Gwella darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ADY.
7. Cynyddu nifer staff sydd yn gallu addysgu yn Gymraeg.

1.3 **Polisi Iaith**

**<u>Cynradd</u>**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**<u>Uwchradd</u>**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd y CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11. Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

*Cymraeg 2050* yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd Cymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

| | Nod | Targed |
|---|---|---|
| 1. | Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | 1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050 |
| 2. | Cynyddu defnydd o'r Gymraeg | Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20% |

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

*Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol...... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.*

*Ffynhonnell:- Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)*

## 1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 - 2033

*Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:*

| | Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr? | Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth? |
|---|---|---|
| 1. | Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. | Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg. |
| 2. | Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid. | Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg.<br>Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol. |

*Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:*

- *Iaith y blynyddoedd cynnar*
- *Iaith Dysgu*
- *Iaith Gwaith a Gwasanaeth*
- *Iaith y Gymuned*

## 2. Proffil iaith dalgylch Felinwnda, Bontnewydd a Llandwrog

2.1 Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd **73,560 o bobl** (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i **64.4%**, sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, ward Hendre sydd a'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (86%), gyda ward canol Bangor gyda'r gyfran isaf (25.6%).

### 2.2 Wardiau

#### 2.2.1 Wardiau Llanwnda, Y Groeslon a Bontnewydd

Mae dalgylch Ysgol Felinwnda o fewn ward Llanwnda gyda dalgylch Ysgol Llandwrog o fewn ward Y Groeslon ac Ysgol Bontnewydd o fewn ward Bontnewydd (Swyddfa Ystadegau Gwladol). Gwelir proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn yn y tabl isod:

| | **Llanwnda** | **Y Groeslon** | **Bontnewydd** | **Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth 3+ mlwydd oed** | 1,370 (100%) | 1,621 (100%) | 1,233 (100%) | 114,308 (100%) | 3,018,172 (100%) |
| **Hunaniaeth Gymreig yn unig** | 1,082 (76.1%) | 1,200 (72.2%) | 917 (73.5%) | 69,560 (59.3%) | 1,715,975 (55.2%) |
| **Dim hunaniaeth Gymreig** | 19.9% | 23.7% | 19% | 36.3% | 36.7% |
| **Gallu siarad Cymraeg** | 1,145 (83.5%) | 1,247 (77%) | 1,015 (82.5%) | 73,560 (64.4%) | 538,296 (17.8%) |
| **Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | 1,013 (73.9%) | 1,128 (69.6%) | 894 (72.5%) | 63, 256 (55.3%) | 429,313 (14.2%) |
| **Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | 44 (3.2%) | 43 (2.7%) | 42 (3.4%) | 3,170 (2.8%) | 33,971 (1.1%) |
| **Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg** | 70 (5.1%) | 58 (3.6%) | 68 (5.5%) | 6,142 (5.4%) | 68,391 (2.3%) |
| **Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig** | 62 (4.5%) | 98 (6.0%) | 57 (4.6%) | 8,166 (7.1%) | 156,762 (5.2%) |
| **Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg** | 18 (1.3%) | 18 (1.1%) | 13 (1.1%) | 993 (0.9%) | 6,621 (0.2%) |
| **Dim sgiliau Cymraeg** | 142 (10.4%) | 237 (14.6%) | 129 (10.5%) | 29, 977 (26.2%) | 2,259,017 (74.8%) |

*Ffynhonnell:- Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## 2.3 Cefndir ieithyddol yr ysgolion

Mae'r wybodaeth a geir yn y tabl isod yn amlinellu cefndir ieithyddol dysgwyr Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llandwrog** | 84% | 2% | 0% | 3% | 7% |
| **Bontnewydd** | 82% | 8% | 3% | 2% | 2% |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid CYBLD Ionawr 2024

## 2.4 Y Gymraeg yn yr Ysgolion

Yn unol â'r drefn o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion Cyfrwng Cymraeg Categori 3. Golyga hynny mai Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn y ddwy ysgol. Mae gan yr ysgolion ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae'r drefn gategoreiddio yn ategu Polisi Iaith Addysg y sir sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Yn Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

## 2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Cynhelir gweithgareddau ar ôl ysgol yn adeiladau Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.
Dyma grynodeb o'r hyn sydd yn cael eu cynnig ar ôl ysgol ar gyfer y plant o fewn y 2 dalgylch:

| | Llandwrog | | Bontnewydd | |
|---|---|---|---|---|
| | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref |
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | ✓ |
| **Aelwyd yr Urdd** | ✓ | | ✓ | |
| **Bore/ Noson Goffi** | ✓ | | ✓ | |
| **Clwb/ Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon** | ✓ | | | ✓ |

Gwelir yn y tabl uchod fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn cynnig gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. Bydd dysgwyr yr ardal yn gallu parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

## 2.6 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Llandwrog**
Mae adroddiad Estyn yn 2019 yn dweud:
"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr Ysgol. Mae tua 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref."
Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Llandwrog 2019

**Ysgol Bontnewydd**
Mae adroddiad Estyn 2017 yn dweud:
"Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 75% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol."
Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Bontnewydd 2017

## 3. Asesiad o’r effaith ar yr iaith Gymraeg

**Opsiwn 1** - Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o’r effaith a’r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi’u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 deuir i’r casgliad na fyddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw’r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 deuir i’r casgliad na fyddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw’r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un).<br>Mae 86% o ddysgwyr Ysgol Llandwrog yn siarad Cymraeg gartref Golyga hynny fod seiliau da i ddefnydd anffurfiol o’r Gymraeg gan y dysgwyr yn yr ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Llandwrog yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Ni ragwelir felly y byddai’r opsiwn yma’n effeithio ar y maen prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Llandwrog eisoes yn cynnig gweithgareddau’r Urdd ar ôl ysgol. O weithredu’r opsiwn hwn, byddai’r dysgwyr yn parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar ôl ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Defnyddio’r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 81.1% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg a 77% o boblogaeth ward Groeslon (Ysgol Llandwrog wedi ei leoli yn y ward) yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn gosod sylfaen dda ar gyfer bywiogrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y cymunedau hyn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Opsiwn 2 -** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda gyfan i dalgylch Ysgol Bontnewydd.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod Ysgol Bontnewydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Gan fod Ysgol Bontnewydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un).<br>Mae 90% o ddysgwyr Ysgol Bontnewydd yn siarad Cymraeg gartref. Golyga hynny fod seiliau cadarn i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y dysgwyr yn yr ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Bontnewydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Ni ragwelir felly y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y maen prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Bontnewydd yn cynnig gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. O weithredu'r opsiwn hwn, byddai'r ddysgwyr yn parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle i ddefnyddio Gymraeg ar ôl ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 81.1% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg ac 82.6% o boblogaeth ward Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg.<br>Mae hyn yn gosod sylfaen gref ar gyfer bywiogrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Opsiwn 3** - Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog a Ysgol Bontnewydd.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). Mae canran uchel o ddysgwyr yn siarad Cymraeg gartref yn Ysgol Bontnewydd (90%) ac Ysgol Llandwrog (86%). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3. Ni ragwelir felly y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y maen prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn cynnig gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. O weithredu'r opsiwn hwn, byddai dysgwyr yn parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle i ddefnyddio Gymraeg ar ôl ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 81.1% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg, 77% o boblogaeth ward Y Groeslon (Llandwrog wedi ei leoli yn y ward) yn siaradwyr Cymraeg a 82.5% o boblogaeth ward Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg.<br>Mae hyn yn gosod sylfaen gref ar gyfer bywiogrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Opsiwn 4** - Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un).<br>Mae canran uchel o ddysgwyr yn siarad Cymraeg gartref yn Ysgol Bontnewydd (90%) ac Ysgol Llandwrog (86%). Golyga hynny fod seiliau cadarn i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y dysgwyr yn yr ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3. Ni ragwelir felly y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y maen prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn cynnig gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. O weithredu'r opsiwn hwn, byddai dysgwyr yn parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle i ddefnyddio Gymraeg ar ôl ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 81.1% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg, 77% o boblogaeth ward Y Groeslon (Llandwrog wedi ei leoli yn y ward) yn siaradwyr Cymraeg a 82.5% o boblogaeth ward Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn gosod sylfaen gref ar gyfer bywiogrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Opsiwn 5** - Defnyddio mynediad diogel i Lôn Eifion fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un). | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iaith addysg y plant, gan mai yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o ysgolion cynradd y sir (namyn un).<br>Mae canran uchel o ddysgwyr yn siarad Cymraeg gartref yn Ysgol Bontnewydd (90%) ac Ysgol Llandwrog (86%). Golyga hynny fod seiliau cadarn i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y dysgwyr yn yr ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3. Ni ragwelir felly y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y maen prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn cynnig gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. O weithredu'r opsiwn hwn, byddai dysgwyr yn parhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle i ddefnyddio Gymraeg ar ôl ysgol. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 81.1% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg, 77% o boblogaeth ward Y Groeslon (Llandwrog wedi ei leoli yn y ward) yn siaradwyr Cymraeg a 82.5% o boblogaeth ward Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg.<br>Mae hyn yn gosod sylfaen gref ar gyfer bywiogrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 4. Casgliad

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynnig ar gyfer newid dalgylch Ysgol Felinwnda gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd atgyfnerthu defnydd o'r Gymraeg fel iaith ffurfiol ac anffurfiol yn yr ysgol yn ystyriaeth allweddol.

Wedi ystyried y wybodaeth yn yr asesiad hwn, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg gan fod Ysgol Bontnewydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. At hyn, mae canran uchel o ddysgwyr Ysgol Bontnewydd (90%) yn siarad Cymraeg gartref. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith y cynnig ar yr iaith.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, yn ogystal â chaniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Yn sgil gweithredu'r penderfyniad i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, ac yn sgil cynnal ymgynghoriad ar opsiynau posib ar gyfer y dalgylch, mae angen penderfyniad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol/ysgolion fydd yn gwasanaethu fel ysgol/ysgolion dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Rhestrir isod yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer y dalgylch. Cynigiwyd Opsiwn 4 a 5 gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.

**Opsiwn 1-** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog
**Opsiwn 2-** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 3**- Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 4-***"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd"*
**Opsiwn 5-***"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. "*

Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau effaith, cwblhawyd gwerthusiad o'r opsiynau uchod er mwyn crynhoi rhagoriaethau pob opsiwn.

Yn dilyn gwerthuso'r holl opsiynau, yr opsiwn a argymhellir fel yr opsiwn ffafredig yw:

*"Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd"*

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, Addysg)

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1: 26 Ionawr 2024
Fersiwn 2: 22 Ebrill 2024
Fersiwn 3: 19 Medi 2024
Fersiwn 4: 21 Ionawr 2025

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda, gyda'r ymgynghorai perthnasol rhwng 24 Medi a 22 Hydref 2024.

Roedd yr ymgynghorai perthnasol yn cynnwys:

- Holl breswylwyr dalgylch presennol Ysgol Felinwnda,
- Cyrff Llywodraethol Ysgol Llandwrog, Ysgol Bontnewydd, Ysgol Bro Llifon ac Ysgol Rhostryfan
- Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda
- Cyngor Cymuned Llanwnda

- Aelod Lleol Ward Llanwnda
- Canolfan Bro Llanwnda, ac
- Yr Eglwys yng Nghymru

Ar 20 Medi 2024 anfonwyd llythyr i bob annedd/cartref yn nalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn eu hysbysu ynglŷn â'r ymgynghoriad, ac i egluro sut i gymryd rhan. Anfonwyd hysbysiad ar ffurf e-bost at weddill yr ymgynghorai a restrir uchod. Roedd yr hysbysiad yn cynnwys linc at dudalen benodol ar wefan Cyngor Gwynedd, ble cyhoeddwyd dogfennaeth yr ymgynghoriad ynghyd â'r ffurflen ymateb.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiwn "galw heibio" ar 7 Hydref 2024, yng Nghanolfan Bro Llanwnda, er mwyn rhoi cyfle i ran-ddeiliad ofyn cwestiynau ac i dderbyn eglurder ar unrhyw agwedd oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda. Roedd yna hefyd gyfle i rai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Mynychodd 6 o bobl y sesiwn galw heibio.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 11 ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion gan breswylwyr dalgylch Ysgol Felinwnda, Cyrff Llywodraethol ynghyd ag ymateb gan gynrychiolwyr darparwyr gofal ac addysg feithrin lleol.

Cyflwynir grynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr opsiynau a gynigwyd o fewn y ddogfen ymgynghori ynghyd ag unrhyw opsiynau amgen yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet ar 11 Chwefror 2025. Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd fel atodiad i'r adroddiad.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae gan bob ysgol ddalgylch, sef ardal ddaearyddol ddiffiniedig y mae'n ei gwasanaethu, ac yn dilyn cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, mae angen dynodi dalgylch ar gyfer dalgylch Felinwnda.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Roedd yr ymgynghoriad ar Adolygu Dalgylch Felinwnda yn gyfle i dderbyn barn rhanddeiliaid ar yr opsiynau a'r asesiadau effaith ac adnabod unrhyw fylchau posib yn y dystiolaeth.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| | **Opsiwn 2-** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda gyfan i dalgylch Bontnewydd | |
|---|---|---|
| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yma yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma, gan fod y polisïau hyn yn berthnasol i bob ysgol. |
| **Anabledd** | Cadarnhaol | Rhagwelir y byddai'r cynnig yma yn cael effaith cadarnhaol ar y nodwedd yma. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. Pan fydd Campws Cymunedol Bontnewydd yn agor yn 2026-27, bydd yr holl safle a'r adeiladau'n gwbl hygyrch.<br><br>Bydd yr hen ysgol ym Montnewydd sef y Ganolfan Gymunedol bresennol fydd yn gartref dros dro i dri dosbarth a neuadd yr ysgol yn gwbl hygyrch yn fewnol ac yn allanol. Nid oes stepiau i mewn yn yr adeilad a pe byddai angen addasu yn fewnol gyda rheiliau neu liwiau cyferbyniol byddai modd gwneud hynny.<br><br>*Ers 2021 mae Deddfwriaeth newydd yn dod i r ym yn raddol yng Nghymru ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru (2018) yn disodli Deddf Anghenion Addysgol Arbennig (2002) dros gyfnod trosiannol hyd at 2025.*<br><br>*Er yn rhoi cyfle i weithio yn llawer mwy person ganolog, a theilwra'r ddarpariaeth i anghenion yr unigolyn, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod gofynion uwch ar ysgolion o ran gweinyddu a darparu gofynion y ddeddf. I grynhoi:*<br>• *Mae'r oedran gofynnol ar gyfer darparu wedi ymestyn o 3-19 i 0-25 oed.*<br>• *Mae gofyn i bob disgybl sydd yn cael ei adnabod gydag anghenion dysgu ychwanegol fod â Chynllun Datblygu Unigol (CDU), ac mae hawliau cyfreithiol a statudol yn cyd fynd gyda'r CDU. Mae'n gyfreithiol i ysgolion a'r awdurdod fod yn darparu'r hyn sydd yn cael ei gytuno o fewn y CDU ar gyfer y dysgwr.*<br>• *Mae rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn pob ysgol yn rôl statudol gyda gofynion cyfreithiol o gwmpas y dyletswydd. Mae angen i'r CADY fod yn ymgymryd â gwaith strategol, ac i fod yn cynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth yn barhaus.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | • *Mae gofyn i allu cynnal map darpariaeth sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr.*<br>• *Mae cynnydd mewn gofyn am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol wrth i anghenion dysgwyr ddwysáu yn dilyn cyfnod COVID.*<br>*Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r  cydlynydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn.* |
| **Rhyw** | Dim | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yma yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd gweithredu'r cynnig yma yn golygu fydd pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae holl ysgolion Gwynedd yn gweithredu ar Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Dim | Mae Ysgol Bontnewydd yn darparu addysg i blant 3-11 oed, fel ag yr oedd Ysgol Felinwnda. Ni ragwelir felly y byddai gweithredu'r cynnig yma'n cael effaith negyddol ar y nodwedd 'oedran'. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.<br>Fe nodir yn y Polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan holl ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br>O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig yma yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae gan pob ysgol yng Ngwynedd Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan holl ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru.<br>Mae'n bwysig sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal a'i datblygu fel rhan annatod o fywyd cymunedol Felinwnda. Mae'r ganolfan gymunedol a leolir yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | nghymuned Felinwnda yn gallu chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau'n fyw ac yn ganolog i fywyd cymunedol yn yr ardal. Mae'r ganolfan yn adnodd cymunedol a fyddai'n parhau i gynnig cyfleoedd i bobl o bob oedran i ddatblygu eu iaith Gymraeg drwy gynnal gweithgareddau cymdeithasol, mae'r ganolfan hefyd yn adnodd addysgol sydd yn darparu adnoddau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Rhagwelir y byddai'r cynnig yma yn cael effaith bositif ar y nodwedd Anfantais Economaidd- Gymdeithasol. Gall trosglwyddo dalgylch Felinwnda i fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Bontnewydd wella adfywiad cymunedol drwy annog cydweithredu â chymunedau lleol. Byddai'r newid yn annog cydweithrediad gyda chymunedau eraill, gall hyn greu cysylltiadau gwerthfawr rhwng cymunedau, gan alluogi cyfleoedd a chynhwysiant cymdeithasol. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yma yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Byddai'r cynnig yma yn sicrhau bod dalgylch gyfan Felinwnda yn derbyn cyfleoedd cyfartal gan fod y dysgwyr i gyd efo'i gilydd mewn un dalgylch ac yn cael yr un cyfleoedd i adeiladu yr un cysylltiadau gyda'r ysgol a chymuned Bontnewydd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gan fod nifer o'r dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd, mae cysylltiad rhwng yr ysgol â chymuned Felinwnda yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir ar yr cynnig yma, fe hyrwyddir cyfleon i Ysgol Bontnewydd adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda chymuned Felinwnda. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cynnig ar gyfer newid trefniadau lleol yn cymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Mae cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r opsiynau.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr ardal Felinwnda yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg boed hynny yn Ysgol Bontnewydd.

O safbwynt y gymuned mae 1,145 (83%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llanwnda tra bod 1,015 (82%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Bontnewydd (Ffynhonnell Cyfrifiad 2021).

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r wybodaeth ffeithiol ar gyfer gallu dysgwyr Ysgol Bontnewydd

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bontnewydd** | 82% | 3% | 8% | 2% | 2% |
| | **Cymraeg Rhugl** | | **Ychydig o Gymraeg** | | **Dim Cymraeg** |

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli yn ardal Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin. Bydd defnydd cymunedol yma yn sicrhau bydd defnydd o'r Iaith Gymraeg yn parhau yn y gymuned. Mae'r ganolfan yn adnodd cymunedol a fyddai'n parhau i gynnig cyfleoedd i bobl o bob oedran i ddefnyddio'u Cymraeg drwy gynnal gweithgareddau cymdeithasol.

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig i drosglwyddo'r dalgylch i dalgylch Ysgol Bontnewydd yn cynnig cynnal y cyfleoedd addysgiadol presennol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau dysgu cyfoethog yn defnyddio'r iaith Gymraeg boed hynny yn Ysgol Bontnewydd, neu unrhyw ysgol amgen (all-dalgylch) a ddewisir gan y rhieni.

### 3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Fel nodir uchod, rhagwelir na fyddai gweithredu'r cynnig i drosglwyddo'r dalgylch i dalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd addysgiadol, ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau dysgu cyfoethog yn defnyddio'r iaith Gymraeg boed hynny yn Ysgol Bontnewydd, neu unrhyw ysgol amgen (all-dalgylch) a ddewisir gan y rhieni. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig dan sylw yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

### 3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Fel nodir yn y tabl yn adran 3.2, ni ragwelir y byddai'r cynnig dan sylw yn creu Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda i fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn gwella adfywiad cymunedol drwy annog cydweithredu â chymunedau lleol. Byddai'r newid yn annog

| |
|---|
| cydweithrediad gyda chymunedau ehangach ac fe all hyn greu cysylltiadau gwerthfawr rhwng cymunedau, gan alluogi cyfleoedd a chynhwysiant cymdeithasol. |

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

| |
|---|
| Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddwn yn monitro effaith ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad i'r newid. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Rhagwelir y byddai'r cynnig dan sylw yn cael effaith bositif ar y nodwedd Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda i fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn gwella adfywiad cymunedol drwy annog cydweithredu â chymunedau amgen. Byddai'r newid yn annog cydweithrediad gyda chymunedau cyfagos eraill, gall hyn greu cysylltiadau gwerthfawr rhwng ysgolion a chymunedau, gan alluogi cyfleoedd a chynhwysiant cymdeithasol.<br><br>O 2026-27, ymlaen, rhagwelir y byddai'r cynnig hefyd yn cael effaith cadarnhaol ar y nodwedd Anabledd, gan y bydd Campws Cymunedol Bontnewydd wedi ei gwblhau, gyda'r safle a'r adeiladau'n gwbl hygyrch. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion uchod.<br><br>Mae gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio. Mae Ysgol Bontnewydd yn gwasanaethu ardal o arwyddocâd ieithyddol, felly o weithredu'r cynnig, byddai'r dalgylch yn ymuno â dalgylch ysgol Gymraeg ei naws. Ni ragwelir y byddai addasu ffiniau'r dalgylch yn effeithio ar allu'r gymuned i barhau i gynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg, yn yr ardal. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |

| | |
|---|---|
| | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid yw'r Awdurdod yn rhagweld effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o'r cynnig i addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid ydym yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn. Byddwn fel awdurdod yn monitro'r sefyllfa ac mi fydd y Cylch a'r gymuned yn gallu galw ar wasanaethau Cyngor Gwynedd i gefnogi petai unrhyw effaith negyddol fyddai'n deillio o'r cynnig, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.


### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Byddwn yn asesu'r sefyllfa yn ofalus ac ystyried y rhesymau dros beidio â gweithredu ymhellach, gan sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth gadarn ac ystyried y buddiannau gorau ar gyfer yr holl rhanddeiliaid.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddwn yn monitro effaith ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad i'r newid.




# Adroddiad Asesiad Effaith ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – Dalgylch Ysgol Felinwnda

## 1. Cyflwyniad

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae' r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy ei gweithgareddau a'i phrosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

## 2. Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, yn ogystal â chaniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol ddalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Yn sgil gweithredu'r penderfyniad i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, ac yn sgil cynnal ymgynghoriad ar opsiynau posib ar gyfer y dalgylch, mae angen penderfyniad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol/ysgolion fydd yn gwasanaethu fel ysgol/ysgolion dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Rhestrir isod yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer y dalgylch. Cynigiwyd Opsiwn 4 a 5 gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.

**Opsiwn 1-** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog
**Opsiwn 2-** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 3**- Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd
**Opsiwn 4-***"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd"*
**Opsiwn 5-***"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. "*

Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau effaith, cwblhawyd gwerthusiad o'r opsiynau uchod er mwyn crynhoi rhagoriaethau pob opsiwn.

Yn dilyn gwerthuso'r holl opsiynau, yr opsiwn a argymhellir fel yr opsiwn ffafredig yw:

*"Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd"*

## 3. Sut mae'r cynnig yn cwrdd ag amcanion lles Cyngor Gwynedd?

| Amcanion | |
|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | Byddai'r cynnig yma yn sicrhau bod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod eang o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd dysgu a phrofiadau i ystod eang o ddysgwyr. |
| **Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | Dim effaith. |
| **Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | Dim effaith. |
| **Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | Mae nifer o'r dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd, mae cysylltiad rhwng yr ysgol a chymuned Felinwnda yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig yma, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda chymuned Felinwnda. Bydd sicrhau bod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd. |
| **Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Mae dysgwyr dalgylch Felinwnda yn byw mewn cymuned naturiol Gymraeg a byddai'r cynnig yma'n sicrhau bod plant yr ardal yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 (Ysgol Bontnewydd). Mae'n debygol y byddai'r cynnig yma yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr dalgylch Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod eang o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae Ysgol Bontnewydd yn gwasanaethu ardal sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd erbyn 2026-2027. Bydd yr adeilad yma yn arloesol gyda'r nod o leihau carbon, a gwneud y mwyaf o ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeiladau presennol a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau sy'n lleol i'r ardal. O ganlyniad, rhagwelir y byddai cynnig addysg i blant yr ardal yn Ysgol Bontnewydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr argyfwng newid hinsawdd. |
| **Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | Rydym wedi ceisio barn trigolion drwy gynnal ymgynghoriad ar ddalgylch Felinwnda. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad wrth lunio'r argymhelliad i'r Cabinet. Gan fod yr ymgynghoriad yn ymwneud â dalgylchoedd yn hytrach nag ysgolion yn benodol, ni ymgynghorwyd efo plant a phobl ifanc fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Er hynny, bu i'r Awdurdod gynnal sesiwn ymgysylltu efo dysgwyr Ysgol Felinwnda er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y cynnig i gau'r ysgol yn ôl yn 2023. |

# 4. A yw'r cynnig yn cwrdd â nodau llesiant y ddeddf?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>**Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.** | Byddai gweithredu'r cynnig yma yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod eang o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf a phrofiadau i ystod eang o ddysgwyr. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |
| **Cymru gydnerth**<br>**Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yma'n yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |
| **Cymru iachach**<br>**Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yma'n yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).** | Byddai'r y cynnig yma'n sicrhau parhad yn ngallu'r Awdurdod i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.<br><br>Mae gan bob ysgol bolisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>**Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.** | Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli yn ardal Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin.<br><br>Wrth fod 57% o ddysgwyr sydd yn byw yn nalgylch Felinwnda eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd, mae cyswllt eisoes rhwng y gymuned ac Ysgol Bontnewydd. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.** | Mae dysgwyr dalgylch Felinwnda yn byw mewn cymuned naturiol Gymraeg. Mae Ysgol Bontnewydd yn gwasanaethu ardal sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.<br><br>Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli yn ardal Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys y Cylch Meithrin. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>**Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.** | Mae pob un o ysgolion Gwynedd yn gweithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru, gyda'r pwyslais ar ddatblygu dinasyddion Cymru a'r Byd. | Ni welir effaith negyddol ar y nod yma o weithredu'r cynnig hwn. |

## 5. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Tymor Hir**<br>**Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.** | Mae'r Adran Addysg yn y broses o lunio strategaeth addysg newydd. Bydd y strategaeth newydd yn ystyried yr egwyddor hwn wrth gynllunio darpariaeth i'r dyfodol. |
| **Atal**<br>**Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.** | Mae'r Adran Addysg yn y broses o lunio strategaeth addysg newydd. Bydd y strategaeth newydd yn ystyried yr egwyddor hwn wrth gynllunio darpariaeth i'r dyfodol. |
| **Integreiddio**<br>**Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.** | Mae dysgwyr dalgylch Felinwnda yn byw mewn cymuned naturiol Gymraeg a byddai'r cynnig yma'n sicrhau bod plant yr ardal yn cael cynnwys o fewn dalgylch Ysgol Bontnewydd sydd yn gwasanaethu ardal sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bontnewydd erbyn 2026-2027. Bydd yr adeilad yma yn arloesol gyda'r nod o leihau carbon, a gwneud y mwyaf o ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeiladau presennol a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau sy'n lleol i'r ardal. O ganlyniad, rhagwelir y byddai cynnig addysg i blant yr ardal yn Ysgol Bontnewydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd. |
| **Cydweithredu**<br>**Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.** | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill, cydweithio ysgol i ysgol, a gyda Chanolfan Bro Llanwnda yn ran allweddol o'r cynnig yma er budd plant y dalgylch. |
| **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)**<br>**Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.** | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Medi a 22 Hydref 2024 gan roi cyfle i'r ymgynghorai gynnig sylwadau ar yr opsiynau posib. Roedd cynnal yr ymgynghoriad yn sicrhau bod pobl yr ardal yn cael eu cynnwys ac yn cael cyfle i leisio barn fydd yn cyfrannu at yr argymhelliad a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet. |

## 6. Casgliad

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig i drosglwyddo'r dalgylch yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cyd-fynd â'r gofynion a'r egwyddorion.

Nodir y byddai'r cynnig dan sylw yn golygu integreiddio dalgylch Felinwnda yn rhan o ddalgylch ehangach. Gan fod nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd, deuir i'r casgliad bod cyswllt rhwng Ysgol Bontnewydd a chymuned Felinwnda yn bodoli eisoes.